# Chwarae Cymru

ADRODDIAD EFFAITH
2020 - 2021



# Adroddiad y Cadeirydd

Pan ysgrifennais i adroddiad y Cadeirydd y llynedd, roeddem newydd blymio ar ein pennau i don gyntaf yr epidemig COVID-19. Wrth imi ysgrifennu adroddiad eleni, rydym yn dechrau dod allan o'r hyn y mae pawb yn obeithio fydd y cyfyngiadau olaf. Rhwng y ddau gyfnod yma, mae wedi bod yn anodd i bawb ac yn hunllef i rai.

Mae swyddogaeth elusen fel Chwarae Cymru mewn argyfwng o'r fath yn driphlyg. I'w oroesi fel sefydliad sy'n allweddol ar gyfer hawl plant i chwarae, i ddod o hyd i ffyrdd dyfeisgar i helpu pawb arall sy'n gyfrifol am chwarae plant, ac i barhau i ddatblygu syniadau ac arferion i'r dyfodol. Fe welwch yn yr adroddiad effaith hwn pa mor wych y mae staff Chwarae Cymru wedi cyflawni'r tri.

Mae Chwarae Cymru wastad wedi ymdrechu i ddarparu cyngor am chwarae ac i ddysgu gan y plant eu hunain sut y mae'r cyngor hwnnw wedi ei roi ar waith. Fu hynny erioed mor allweddol nag yn ystod yr epidemig COVID-19, ble bu chwarae'n hanfodol wrth i rieni a phlant ddysgu gyda'i gilydd o amgylch bwrdd y gegin, i ysgolion oedd yn pendroni sut i helpu disgyblion i gynnal eu hiechyd corfforol ac emosiynol yn ystod y cyfnod ymbellhau cymdeithasol, ac i lawer o sefydliadau sydd wedi bod yn brin o arian ac yn ansicr ynghylch eu blaenoriaethau.

Cynyddodd y traffig i wefan *Plentyndod Chwareus* 404%, swm syfrdanol, yn ystod tri mis y cyfnod clo cyntaf yn unig a dosbarthodd menter Corona Chwarae adnoddau ymarferol i deuluoedd ar-lein a thrwy lyfrau stori ledled Cymru a thu hwnt. Datblygwyd rhaglen o ddigwyddiadau DPP ar-lein a'i throsglwyddo i'r sector gwaith chwarae ac mae Fframwaith Sicrhau Ansawdd newydd, er mwyn i leoliadau gwaith chwarae asesu eu harfer, yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd. Mae cyngor i awdurdodau lleol wedi parhau trwy gydol y flwyddyn ac mae Chwarae Cymru wedi chwarae rhan ganolog yn Adolygiad y Gweinidog o Gyfleoedd Chwarae, Llywodraeth Cymru, sy'n dal i fynd rhagddo a sut y mae ei anghenion yn cael eu cyflawni.

'Does ryfedd felly bod Chwarae Cymru wedi ei longyfarch am y gwaith hwnnw gartref a thramor. Gan y modd y mae ei adnoddau wedi eu croesawu'n awchus gan deuluoedd ac ysgolion oedd heb fawr o gymorth arall, gan gefnogaeth ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru, gan grantiau oddi wrth sefydliadau dyngarol o bob cwr o'r DU, a thrwy Wobr Arbennig yr International Play Association ar yr Hawl i Chwarae mewn Cyfnod o Argyfwng. Ond, wrth gwrs, 'dyw'r stori ddim yn gorffen yma.

Mae'r byd yn agor ei ddrysau unwaith eto, ac o ganlyniad orwelion Chwarae Cymru. Mae'r wefan yn cael ei ail-frandio eisoes, mae ffilm wedi ei chomisiynu i ddathlu chwarae plant yng Nghymru, mae ymgyrchoedd yr haf a'r hydref yn cael eu trefnu, a bydd cynadleddau gwaith chwarae wyneb-yn-wyneb yn ôl ar y ffordd yn fuan, cyhoeddir mwy o ganllawiau a phecynnau cymorth er mwyn edrych ar argaeledd a defnydd mannau chwarae yn y gymuned, a bydd gwaith ymchwil yn archwilio profiadau chwarae plant o bob oed.

Rwyf wedi fy nhemtio i'ch gadael gydag un enghraifft o ba mor gyffrous y gall hyn fod. Mae Hong Kong newydd gysylltu, eisiau cael gafael ar adnoddau addysgiadol Chwarae Cymru ar ran miliynau a'r filiynau o blant a theuluoedd yn Tsieina. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r enw da y mae Chwarae Cymru'n ei ennill am ei waith yn fyd-eang, ond y gwir fesur fydd ymrwymiad ein gwlad ein hunain i chwarae ac iechyd cyffredinol ein plant o ganlyniad. Ydi, mae'r byd yn ail-agor, ond wnaeth y drysau fyth gau ar waith Chwarae Cymru.

Sy'n fy arwain at fy sylw terfynol, a gair o rybudd. Er y gallai ymddangos yn sarrug ymysg yr holl weithgarwch yma, mae llwyddiant yn magu ei drafferthion ei hun. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru wedi pryderu bod y staff yn dod yn agos at flino'n llwyr, yn gorfforol ac yn emosiynol, yn eu hymdrech i gadw i fyny gyda'r galw i adolygu hen brosiectau ac i ddyfeisio rhai newydd. Gallwn, fe allwn gynnig cydnabyddiaeth bonws unigol, ond maen nhw'n gweithio ymhell y tu hwnt i'r hyn ddylen nhw ac mae hynny'n anghynaliadwy. Mae rhaid i'r cyllid craidd gynyddu er mwyn i fwy o staff gael eu recriwtio i rannu'r baich. Neu bydd rhaid i'w gwaith gael ei gwtogi i lefel y gellir ei gyflawni'n ddiogel. A 'dyw diogelwch yn gyntaf ddim yn gysyniad y bydd staff sefydliad fel Chwarae Cymru yn barod iawn i'w fabwysiadu, hyd yn oed er eu lles eu hunain.



Dr Mike Shooter CBE
Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru

# Adroddiad y Cyfarwyddwr

Bu 2020 - 2021 yn flwyddyn galed i lawer ohonom. Wrth i'r cyfnodau clo gael eu llacio roedd ymdeimlad y byddai pethau'n dod yn haws. Ond, mae'r realiti wedi bod yn llai eglur, ac mae bywyd yn dal wedi ei gyfyngu mewn llawer o ffyrdd gan fesurau a ddyluniwyd i leddfu effaith COVID-19. Er hynny, gwelwyd rhywfaint o symud tuag at ein hen normalrwydd.

Mae Chwarae Cymru wedi canolbwyntio'n sylweddol ar gyfrannu at y rhaglen o adfer ar ôl COVID-19, a gefnogwyd yn hael gan gyllid Llywodraeth Cymru, sydd wedi ein galluogi i gychwyn ar ystod o ddatblygiadau dyfeisgar. Fel y dengys ein hadroddiad, mae ein heffaith wedi gwella'n sylweddol ynghyd â'n hystod gynyddol o adnoddau. Ond, cyflawnwyd hyn ar draul sylweddol i weithlu Chwarae Cymru. Rydym yn dîm bychan ac ymroddedig, sydd wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi hen arfer bellach canolbwyntio ar sut y gallwn ddefnyddio ein capasiti cyfyngedig i sicrhau'r effaith gorau.

Byddwn yn neilltuo amser yn rheolaidd ar gyfer ystyried pa gamau gweithredu allai gael yr effaith strategol mwyaf. Mae hyn, weithiau, yn galw am wneud penderfyniadau anodd ac er y byddem wrth ein bodd yn dal ati gyda'n gwaith i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, yn enwedig ymysg rhieni, am rôl a phwysigrwydd chwarae ym mywydau eu plant, mae rhaid inni sylweddoli mai dim ond hyn a hyn y gallwn ei wneud.

Mae'r flwyddyn hon wedi cyflwyno cyfle unigryw i Chwarae Cymru – i gefnogi datblygiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Cafodd yr adolygiad, a gychwynnwyd yn 2019, ei oedi wrth i don gyntaf COVID-19 daro. Fodd bynnag, wrth inni ddysgu i fyw gyda'r pandemig, ailafaelwyd yn yr adolygiad a rhagwelwyd cynnal cyfarfodydd trwy gydol 2021.

Mae cyrhaeddiad yr adolygiad wedi ehangu, gan ei fod yn cwmpasu nifer o agweddau o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar chwarae plant. Felly, fel y disgrifiwyd uchod, rydym wedi ein cael ein hunain mewn sefyllfa, unwaith eto, ble bu rhaid inni ail-flaenoriaethu llawer o'n gwaith, er mwyn ymateb i'r cyfle i gyfrannu at fenter o'r fath bwysigrwydd strategol a hir dymor.

Mae dyddiau cyffrous o'n blaenau. 'Does dim amheuaeth y bydd mwy o newidiadau i'n blaenoriaethau, i'n gwaith a'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu, o ganlyniad i ganfyddiadau'r adolygiad – ond mae amryw wedi dweud bod Chwarae Cymru wastad wedi bod yn elusen ystwyth. Rydym yn barod i dderbyn yr her.



Mike Greenaway
Cyfarwyddwr Chwarae Cymru



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 2020 - 2021 yn gryno | 5 |
| Am Chwarae Cymru | 6 |
| Cyflawniadau | |
| Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol | 7 |
| Ymgysylltu | 8 |
| Cyhoeddiadau | 9 |
| Gweithwyr proffesiynol hyddysg | 10 |
| Ymholiadau gan y cyhoedd | 12 |
| Sicrhau ansawdd | 12 |
| Cydweithredu'n lleol a chenedlaethol | 13 |
| Ymchwil | 13 |
| Cynulleidfaoedd newydd | 14 |
| Aelodaeth | 16 |
| Partneriaid | 17 |
| Cyflawniadau: 1998 - 2020 | 18 |
| Adolygiad ariannol – crynodeb | 20 |
| Cynlluniau ar gyfer y dyfodol: 2021 - 2022 | 21 |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru | 22 |
| Tîm Chwarae Cymru | 22 |

# 2020 - 2021 yn gryno

Trosglwyddo seminarau ar-lein i
**472**
o gyfranogwyr

**169,000**
**ymweliad â'r wefan**

**7,000**
o lyfrau stori *Hwyl yn yr ardd* wedi eu rhoi

***'Mae Chwarae Cymru yn gorff anllywodraethol llawn ffocws sy'n canolbwyntio ar bolisi.'***

**15,000**
o lyfrynnau *Plentyndod Chwareus* wedi eu dosbarthu i deuluoedd ledled Cymru

Cyhoeddwyd a dosbarthwyd yn helaeth:

**1** rhestr ddarllen
**2** bapur briffio
**2** gylchgrawn
**3** awgrymiadau anhygoel
**5** taflen wybodaeth

**11**
o ymatebion i ymgynghoriadau cenedlaethol a rhyngwladol

**2,500**
o bobl sydd â diddordeb mewn chwarae plant wedi derbyn newyddion a gwybodaeth yn rheolaidd

**19,480**
o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol




# Am Chwarae Cymru

## Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol dros chwarae plant.

**Ein gweledigaeth**: Dyfodol ble caiff chwarae ei barchu am ei bwysigrwydd allweddol i blentyndod.

**Ein cennad**: Ymgyrchu dros Gymru chwarae-gyfeillgar a phledio achos hawl pob plentyn i chwarae.

Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch angen a hawl plant a phlant yn eu harddegau i chwarae ac i hybu arfer dda ar bob lefel o lunio penderfyniadau ac ym mhobman ble y gallai plant chwarae. Rydym yn darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi pob un sydd â diddordeb mewn, neu sy'n gyfrifol am ddarparu ar gyfer, chwarae plant fel y bydd Cymru, un dydd, yn wlad ble rydym yn cydnabod ac yn darparu'n dda ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn.

Ers mis Hydref 2014 (hyd fis Mawrth 2022), mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru i ddarparu ystod o gefnogaeth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

**Mae ein gwaith yn cynnwys:**

- **Polisi**: i weithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau i hysbysu datblygiad polisi a materion sy'n ymwneud â chwarae plant yng Nghymru
- **Gwasanaeth gwybodaeth**: i hybu gwerth chwarae plant yng Nghymru trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol ac amserol i'n rhanddeiliaid
- **Cyngor a chefnogaeth**: i ddarparu gwybodaeth arbenigol ynghylch pob mater sy'n ymwneud â, ac sy'n effeithio ar, chwarae plant
- **Datblygu'r gweithlu**: i gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru.

# Crynodeb o gyflawniadau 2020 - 2021

## Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

**Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i gynorthwyo gyda gweithrediad eu Dyletswyddau Cyfleoedd Chwarae Digonol statudol.**

**Mae Chwarae Cymru wedi:**

- Comisiynu a chyhoeddi astudiaeth ymchwil sy'n archwilio'r amodau sy'n cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae.
- Comisiynu Prifysgol Abertawe i gynnal ymchwil i'r gweithlu.
- Addasu (mewn ymateb i reoliadau COVID-19) weithredu'r prosiect Llysgenhadon Chwarae Cymunedol, prosiect tair blynedd a ariennir gan y Gronfa Iach ac Egnïol (HAF).
- Trosglwyddo pedwar cyfarfod o Gyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) – gan gefnogi dialog rhwng cyflogwyr gwaith chwarae, sefydliadau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Chymwysterau Cymru.
- Parhau i weithio yn unol â chamau gweithredu *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru*, cynllun Chwarae Cymru ar gyfer datblygiad parhaus y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.
- Arwain ar ddatblygu siart lif cymwysterau gwaith chwarae i gynorthwyo lleoliadau a reoleiddir i lywio trwy ofynion cymwysterau'n fwy eglur.
- Trosglwyddo 10 digwyddiad ar-lein i gefnogi'r gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.
- Parhau i ddatblygu ymgyrch a gwefan *Plentyndod Chwareus*. Yn ogystal â helpu rhieni, mae wedi ei anelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd i ddarparu syniadau ymarferol ar gyfer rhoi digon o gyfleoedd da i blant chwarae.
- Ymateb i 11 ymgynghoriad cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol.
- Datblygu ystod eang o adnoddau i gefnogi ymarferwyr, yn cynnwys gweithwyr chwarae ac athrawon.
- Drafftio, ar gyfer Grŵp Monitro CCUHP:
  - Y Papur Briffio Thematig ar gyfer Chwarae a Hamdden
  - Pennod Chwarae a Hamdden ar gyfer Adroddiad Cymdeithas Sifil Cymru i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i hysbysu eu Rhestr o Faterion Cyn Adrodd (LOIPR).

### Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae

Fe gyfrannom at yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae trwy chwarae rhan weithredol mewn cyfarfodydd a darparu cymorth i hwyluso gweithdai i Lywodraeth Cymru:

- Cynghori ar yr amserlen ar gyfer ail-gychwyn yr adolygiad
- Darparu dau gyflwyniad ar gyfer cyfarfod yr Hydref 2020
- Cyflwyno sylwadau ar bapurau a baratowyd gan Lywodraeth Cymru
- Cynllunio a hwyluso pum gweithdy ar gyfer y Grŵp Llywio.

*'Rydw i wir wedi mwynhau gweithio gyda phawb yn Chwarae Cymru, mae eich ymrwymiad i chwarae mor "heintus" ac rydw i wedi dysgu cymaint.'*
**Swyddog o Lywodraeth Cymru**

# Ymgysylltu

**169,000 YMWELIAD**

**55,000 DEFNYDDIWR**

## Gwefan

Mae ein gwefan wrth galon Gwasanaeth Gwybodaeth Chwarae Cymru. Caiff ei diweddaru'n rheolaidd gyda gwybodaeth amserol a pherthnasol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld cynulleidfa sylweddol yn ymweld â'r wefan – gan ddenu, rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021:

- 169,383 ymweliad
- 55,395 defnyddiwr.

*'Bob tro y bydda' i'n chwilio am adnodd ar unrhyw elfen o chwarae, mae Chwarae Cymru wedi ei greu, wedi cynhyrchu rhywbeth sy'n well na'r hyn y gallwn freuddwydio amdano. Dwi'n cael wythnos o fyfyrio ar bethau sydd wedi gwneud gwahaniaeth yn y byd. Mae Chwarae Cymru yn un o'r pethau hynny.'*

**Rheolwraig Tîm Chwarae**

### Arolwg Gwerthuso Chwarae Cymru

Pan ofynnon ni 'Sut mae cefnogaeth Chwarae Cymru wedi cyfrannu at eich gallu chi / gallu eich sefydliad i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer chwarae plant?' dyma oedd yr ymateb.

**TRI ATEB UCHAF**

| | |
|---|---|
| Derbyn y newyddion diweddaraf a gwybodaeth am ddatblygiadau ymchwil | **84%** |
| Cyrchu deunyddiau ac adnoddau trwy gyhoeddiadau Chwarae Cymru | **61%** |
| Cynnydd yn ansawdd y profiadau chwarae ar gyfer y plant | **43%** |

## Y cyfryngau cymdeithasol

Mae'r niferoedd sy'n dilyn cyfryngau cymdeithasol dwyieithog Chwarae Cymru'n tyfu'n ddyddiol ac maent yn denu mwy o gyfranogaeth o blith cynulleidfa amrywiol, eang yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

**Facebook**
6,131 o ddilynwyr

**Twitter**
8,018 o ddilynwyr

## Y diweddaraf drwy e-bost

Rydym yn sicrhau bod ein cefnogwyr, oddeutu 2,500 o dderbynwyr sydd â diddordeb uniongyrchol mewn chwarae plant, yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf e-byst yn rheolaidd sy'n cynnwys gwybodaeth gyfredol, yn cynnwys:

- Digwyddiadau sydd ar y gweill
- Y newyddion diweddaraf
- Cyhoeddiadau newydd Chwarae Cymru
- Ymgynghoriadau
- Gwybodaeth polisi.

# Cyhoeddiadau




**Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddatblygu a dosbarthu amrywiaeth o gyhoeddiadau i gynorthwyo i hysbysu'r rhai sydd â diddordeb mewn neu gyfrifoldeb am chwarae plant. Er mwyn cefnogi'r sector, fe wnaethom gynhyrchu nifer o adnoddau mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Cafodd y cyfan eu lawrlwytho o'n gwefan a'u rhannu'n helaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol.**

## Cylchgrawn *Chwarae dros Gymru*

**Fe'i cyhoeddir ddwywaith y flwyddyn a dosbarthwyd y rhifynnau hyn yn ddigidol i dros 2,000 o ddarllenwyr.**

Gwanwyn 2021
Mae'r rhifyn **lle i chwarae tu allan** yn cynnwys:




- Esiamplau o sut mae mudiadau yn cefnogi chwarae plant yng Nghaerdydd, Abertawe, Merthyr Tudful a Wrecsam
- Creu mannau cynhwysol i chwarae – a ysgrifennwyd gan Theresa Casey
- Strydoedd, trefi a dinasoedd cyfeillgar at blant – a ysgrifennwyd gan Tim Gill
- Yr hyn y mae plant yn ddweud am eu mannau awyr agored i chwarae.

Hydref 2020
Mae'r rhifyn **gwneud i ddigonolrwydd chwarae ddigwydd** yn cynnwys:




- Digonolrwydd cyfleoedd chwarae a rôl gweithwyr chwarae – sut mae'r proffesiwn gwaith chwarae yn helpu i sicrhau cyfleoedd digonol ar gyfer chwarae plant
- Amserau chwarae digonol mewn ysgolion – adnoddau i gefnogi ysgolion i fod mor chwareus â phosibl
- Ei gwneud hi'n bosibl i gyflawni digonolrwydd chwarae – trosolwg gan Dr Wendy Russell am astudiaeth ymchwil newydd.

## Taflenni gwybodaeth

Fe gyhoeddom gymysgedd o daflenni gwybodaeth newydd a rhai wedi eu diweddaru:

- *Chwarae: iechyd meddwl a lles*
- *Chwarae: iechyd a lles*
- *Meddwl am rannau rhydd mewn ysgolion*
- *Hybu gweithgarwch corfforol trwy chwarae'r tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar*
- *Digonolrwydd chwarae yng Nghymru*

## Awgrymiadau anhygoel

Mewn ymateb i'r pandemig, fe gyhoeddom dair rhestr o awgrymiadau anhygoel:

- Chwarae, ysgolion a coronafeirws
- Gwaith chwarae a coronafeirws
- Chwarae a lles

## Ffocws ar chwarae

Mae pob rhifyn wedi ei anelu at gynulleidfa broffesiynol benodol. Eleni, fe gyhoeddom ddau rifyn i ymateb i'r pandemig:

- Ailagor parciau, ardaloedd chwarae a mannau agored ar gyfer chwarae plant
- Ailagor ysgolion – blaenoriaethu chwarae

## Rhestr ddarllen

Er mwyn cynorthwyo athrawon, fe wnaethom greu rhestr o adnoddau argymelledig ar gyfer meddwl am chwarae mewn ysgolion. Mae'n fan cychwyn ar gyfer pobl sydd â diddordeb gwella cyfleoedd plant i chwarae yn yr ysgol.

# Gweithwyr proffesiynol hyddysg




Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio'r gweithlu chwarae fel '*unrhyw un cyflogedig y mae ei rôl yn effeithio ar blant yn chwarae – y bobl hynny allai un ai hwyluso eu chwarae'n uniongyrchol, dylunio ar gyfer chwarae, neu'r rheini sydd a'r pŵer i roi caniatâd i blant chwarae, neu beidio*' (*Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, 2014).

Mae'r gweithlu chwarae'n cynnwys gweithwyr chwarae ond mae hefyd yn cynnwys ystod eang iawn o weithwyr proffesiynol eraill o ysgolion, adrannau cynllunio, priffyrdd a thrafnidiaeth, iechyd a diogelwch a gofal plant, yn ogystal â grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cynghorau tref a chymuned ac aelodau etholedig.

**Mae Chwarae Cymru wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgarwch er mwyn sicrhau bod y gweithlu chwarae'n cael cyfle i gryfhau eu dealltwriaeth o'u rôl wrth sicrhau bod plant yn cael mwy a mwy o gyfleoedd i chwarae.**

## Trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe weithiom gydag Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i:

- gynllunio ar gyfer symud i ddysgu ar-lein mewn ymateb i'r pandemig.
- dynodi ariannu ar gyfer trosglwyddiad cynaliadwy cymwysterau gwaith chwarae. Gohiriwyd cyrsiau rhwng Ebrill a Medi 2020 oherwydd y pandemig. Caniataodd hyn i'r deunyddiau a'r cynlluniau sesiwn gael eu diweddaru i'n galluogi i'w trosglwyddo ar-lein yn ogystal â chynllunio ar gyfer asesu ymarfer o hirbell. Yn ystod gweddill y cyfnod, ymgymerodd 96 o ddysgwyr â chymwysterau gwaith chwarae.

### Chwarae o Safon

Fe wnaethom arwain ar ddatblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd newydd ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae yng Nghymru. Dan y teitl *Chwarae o Safon*, mae'r fframwaith yn cael ei ddatblygu gyda chefnogaeth grŵp cyfeirio arbenigol yn cynnwys sefydliadau ac unigolion sy'n rhan o'r ystod eang o leoliadau ble bydd gwaith chwarae'n digwydd.

Mae'r fframwaith yn addas ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig ac anghofrestredig yn ogystal â lleoliadau ble nad yw gwaith chwarae'n brif swyddogaeth, megis ysgolion, sydd am dystio arfer gwaith chwarae o safon.

Bydd ar gael ar ffurf offeryn hunanasesu. Anogir lleoliadau i gyflawni proses asesu allanol er mwyn derbyn bathodyn i arddangos eu bod wedi cyflawni gofynion y fframwaith ansawdd.

## Fideos Elfennau Hanfodol Gwaith Chwarae

Fe gynhyrchom wyth fideo Elfennau Hanfodol Gwaith Chwarae ar-lein i gefnogi'r gweithlu gyda gwybodaeth a dealltwriaeth am chwarae. Cyflwynir y fideos gan aelodau o dîm Chwarae Cymru a hyfforddwyr gwaith chwarae. Mae'r pynciau'n cynnwys:

- Hawl plant i chwarae
- Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae
- Asesu Risg-Budd Dynamig.

## Canllawiau gwaith chwarae

Fe weithiom gyda Ludicology i ddatblygu pedwar canllaw gwaith chwarae ar y pynciau canlynol:

- Plentyndod, chwarae a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae
- Ymarfer gwaith chwarae
- Datblygu a rheoli prosiect gwaith chwarae
- Rheoli gweithwyr chwarae a gweithio gydag oedolion eraill.

Cyhoeddwyd y ddwy gyfrol gyntaf yn ystod 2020 - 2021.

*'Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaeth gyda Chwarae Cymru. Mae gweithio gyda nhw'n ein galluogi i gyrraedd sector na fyddai'n hawdd inni gael mynediad iddo. Mae'n caniatáu inni drosglwyddo pecynnau hyfforddi, addysgu a dysgu sydd nid yn unig yn cael eu datblygu trwy ymgynghori â'r sector ond sydd hefyd yn cael eu hysbysu gan y sector, rhywbeth na allem ei wneud heb Chwarae Cymru.'*

**Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales**

**Clwb Llyfrau Chwarae Cymru**
Fe gynhaliom saith digwyddiad arfer myfyriol ar-lein ar amrywiol lyfrau a phapurau ymchwil ar gyfer gweithwyr chwarae. Cofrestrodd cyfanswm o 112 o gyfranogwyr i fynychu'r digwyddiadau misol.

*'Roedd yn sgwrs wych ac fe wnes i werthfawrogi'r cwestiynau ystyriol. Fe wnes i wir ei fwynhau.'*

## Digwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn buom yn cefnogi datblygiad, trefnu a chynnal nifer o seminarau ar-lein rhad ac am ddim a chyfleoedd DPP ar gyfer y sector chwarae a gwaith chwarae ehangach, yn cynnwys:

- **Seminar Mannau i Chwarae** – cofrestrodd 150 o gyfranogwyr i glywed am arfer dda ym maes dylunio a rheoli mannau awyr agored da i chwarae. Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys: Tim Gill, Theresa Casey a Phil Doyle.

*'Siaradwyr gwych. Fel ymarferydd ysgol goedwig sydd am greu profiad mwy hygyrch roedd y sgwrs anabledd / hygyrchedd yn arbennig o ddefnyddiol.'*

- **Cynllunio a dylunio cyfeillgar at blant: y tu hwnt i TAN 16** – cofrestrodd 88 o gyfranogwyr i glywed am arfer dda yng nghyd-destun dylunio cymdogaethau cyfeillgar at blant, gyda phwyslais ar roi polisïau ar waith. Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys: Dr Jenny Wood, Dinah Bornat a Tim Gill.

*'Grŵp gwych o banelwyr – roedd eu sgyrsiau'n llifo'n dda gyda'i gilydd, gan gyffwrdd ar arferion cyfoes yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu amgylchedd adeiledig plant-gyfeillgar i'r dyfodol.'*

- **Hawl plant i chwarae mewn ysgolion** – cofrestrodd 234 o gyfranogwyr i glywed am ymchwil i gefnogi hyrwyddo hawl plant i chwarae mewn ysgolion. Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys: Cathy Atkinson, Rebecca Finney a Francesca Woods.

*'Roedd wedi ei gyflwyno'n dda iawn gyda gwybodaeth ddefnyddiol, gyfredol a diddorol, cyfarwyddebau polisi eglur a neges ddefnyddiol i'w rhannu gydag eraill, ac i helpu i eiriol dros fwy o chwarae rhydd.'*

## Cydweithrediad academaidd

- Mewn partneriaeth gydag ymchwilwyr o Brifysgol Manceinion a phartneriaid eraill, fe wnaethom gyfrannu at ffilm fer Adran Seicoleg Addysgol a Phlant, Cymdeithas Seicolegol Prydain, ar bwysigrwydd chwarae.

## Cydweithio yn y DU ac yn rhyngwladol

Fel rhan o'n gwaith ehangach fel canolfan ragoriaeth ryngwladol, fe wnaethom:

- Drosglwyddo cyflwyniad ar ein menter Corona Chwarae yn nigwyddiad Ymatebion y Llywodraeth a Chyrff Anllywodraethol i Gefnogi Chwarae'n ystod COVID, fel rhan o gyfres gweminarau Gwobr Hawl i Chwarae yr International Play Association.
- Trosglwyddo cyflwyniad cyweirnod am ein gwaith ar 'Agor gatiau'r ysgol: Hwyluso chwarae ar ôl ysgol ar diroedd ysgolion' ar gyfer cyfres gweminarau yr International Play Association, Gwneud Dinasoedd yn Gyfeillgar at Blant yn y Byd ar ôl y Pandemig: Chwarae a Mannau Cyhoeddus.
- Trosglwyddo gweithdy arfer myfyriol ac araith gyweirnod mewn cynhadledd wyth wythnos o hyd, cynhadledd gwaith chwarae ar-lein a gynhaliwyd gan Meynell Games.
- Trosglwyddo cyflwyniad cyweirnod yng ngweminar Ail-ddychmygu Chwarae ar ôl COVID, ar gyfer y Sefydliad Tirwedd.
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer creu adnoddau *Play in Crisis: Support for Parents and Carers*, yr International Play Association.
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i'n cydweithwyr yn Play South Africa.



## Ymholiadau gan y cyhoedd

Yn ogystal â'r gronfa eang o wybodaeth a ddarperir trwy ein gwefan, rydym wedi derbyn ac ymateb i amrywiaeth eang o ymholiadau dros y ffôn, trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy e-bost oddi wrth rieni, aelodau etholedig, dysgwyr, ysgolion a mudiadau bychain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ymholiadau y gwnaethom ymateb iddynt trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio'n cynnwys:

- Cymwysterau addas ar gyfer lleoliadau chwarae a gofal plant sydd wedi eu cofrestru gyda Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cyngor ariannu ar gyfer prynu offer chwarae a datblygu ardaloedd chwarae mewn cymunedau
- Cymwysterau perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer rhedeg cynllun chwarae
- Dysgwyr sydd am ymgymryd â hyfforddiant gwaith chwarae, a chymwysterau lefel 3 yn benodol
- Ymholiadau ymchwil oddi wrth fyfyrwyr astudiaethau plentyndod a gwaith chwarae
- Cyngor ariannu ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae
- Cefnogaeth ar gyfer achub caeau chwarae ysgolion ac amseroedd chwarae
- Cyngor ar lain o dir neu ddylunio gofod chwarae
- Hysbysebu swyddi, yn enwedig cynlluniau chwarae haf
- Llythyrau o gefnogaeth i gymunedau sy'n ymgyrchu am ardaloedd chwarae ac ar gyfer ceisiadau ariannu.

**Adolygir yr ymholiadau hyn yn rheolaidd a'u defnyddio i hysbysu ychwanegu gwybodaeth newydd i'n gwefan.**

## Sicrhau ansawdd

Mae Chwarae Cymru'n falch i ddal Marc Ansawdd Lefel 1 System Sicrhau Ansawdd Ymarferol i Fudiadau Bach (PQASSO). Mae hyn yn dilyn proses drylwyr gan y tîm staff a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i hunan-arfarnu, gwella ac yna pasio asesiad allanol.

NOD ANSAWDD PQASSO QUALITY MARK LEFEL LEVEL 1 NCVO

Mae PQASSO yn gynllun sicrhau ansawdd ar gyfer mudiadau gwirfoddol. Er mwyn helpu mudiadau i gael eu rhedeg yn fwy effeithiol ac effeithlon, mae'n mesur perfformiad mewn ystod eang o feysydd ansawdd yn cynnwys llywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth, a chanlyniadau.

Trwy ennill Marc Safon Lefel 1 PQASSO, rydym wedi llwyddo i arddangos rhinweddau megis: llywodraethu effeithiol a chyfrifol, rheolaeth ariannol gref a chreu perthnasau da gyda sefydliadau eraill.

*'Mae Chwarae Cymru wedi arddangos lefel drawiadol o gyflawniad ar draws pob un o feysydd ansawdd PQASSO. Dangosodd y cyfarwyddwr a'r staff ymrwymiad llwyr i gennad, gwerthoedd a nodau'r mudiad a gwelwyd eu bod yn dîm abl, profiadol iawn a llawn ysgogiad. Mae'r llywodraethu'n rhagorol – dyma un o wir gryfderau'r mudiad ym mhob agwedd. Fe wnaeth Chwarae Cymru hefyd daro'r nod uchaf am ddarparu croeso cynnes, cyfeillgar gan sicrhau bod yr ymweliad safle hwn yn un o'r rhai mwyaf cofiadwy i'r Asesydd, a hynny am yr holl resymau cywir.'*

**Asesydd PQASSO**

## Cydweithredu'n lleol ac yn genedlaethol

**Yn ystod 2020 - 2021 fe wnaethom gydweithio gyda nifer o sefydliadau ar brosiectau, ymgyrchoedd a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) penodol. Fe wnaethom:**

- Weithredu'r prosiect Chwarae Awyr Agored, prosiect tair blynedd o hyd wedi ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Dylunio a throsglwyddo gweithdy ar gyfer Cymorth i Ferched Cymru
- Trosglwyddo sgwrs fer i'r Rhwydwaith Ysgolion Iach a Chydlynwyr Cyn-ysgol
- Hwyluso ymgynghoriad a gweithdy cynyddu capasiti ar gyfer Grŵp Monitro CCUHP
- Darparu cyflwyniadau i Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Choleg Caerdydd a'r Fro
- Trosglwyddo cyflwyniad ar amser chwarae yn yr ysgol i Gyngor Polisi Plant yng Nghymru.
- Gweithio gyda Co-Train i drosglwyddo tri gweithdy i 20 o hyfforddwyr gwaith chwarae ar addasu dulliau hyfforddi chwareus a chyfranogol ar gyfer trosglwyddo ar-lein.

### Diwrnod Chwarae

Dathliad blynyddol y DU o hawl plant i chwarae. Fe'i cydlynir gan Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland. Rydym yn cynrychioli Cymru ar Grŵp Llywio Diwrnod Chwarae sy'n cydlynu'r ymgyrch flynyddol.

Yn Chwarae Cymru rydym yn ystyried Diwrnod Chwarae fel cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd chwarae plant a'r angen am ddarpariaeth chwarae o safon bob dydd o'r flwyddyn ym mhob ardal o Gymru. Fel rhan o ymgyrch Gwneud Sŵn Mawr dros Ddiwrnod Chwarae 2020, fe wnaethom sicrhau bod ystod eang o adnoddau ar gael ar-lein er mwyn i deuluoedd allu dathlu adref, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## Ymchwil

**Fe wnaethom gomisiynu a chyhoeddi adroddiad ymchwil ar ddigonolrwydd chwarae:**

### Ei gwneud hi'n bosibl i gyflawni digonolrwydd chwarae




Adroddiad ymchwil sy'n archwilio'r amodau sy'n cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae.

Mae'n cyflwyno canfyddiadau astudiaeth ymchwil a gynhaliwyd gan Dr Wendy Russell, Mike Barclay, Ben Tawil a Charlotte Derry. Mae hefyd yn cynnwys 26 o gardiau adroddiad o enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd i gefnogi chwarae plant.

Mae'r astudiaeth ymchwil hon yn ehangu ar dair astudiaeth flaenorol oedd yn ystyried bod y Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol yn fater o dalu sylw i'r amodau sy'n cefnogi gallu plant i gael hyd i amser a lle i chwarae. Tynnodd yr astudiaeth gyfredol yr egwyddor hon yn ôl gam, gan ganolbwyntio ar yr amodau sy'n cefnogi awdurdodau lleol i gymryd camau gweithredu er mwyn cefnogi cyfleoedd plant i chwarae.



## Cynulleidfaoedd newydd




Plentyndod Chwareus

Fel rhan o'n gwaith cynyddol i ymgysylltu gyda rhieni a gofalwyr, fe lansiom wefan *Plentyndod Chwareus* ym mis Medi 2018 ac rydym yn dal i ddatblygu cynnwys defnyddiol ac ymarferol. Mae'n anelu i helpu rhieni, gofalwyr a grwpiau cymunedol i roi digonedd o gyfleoedd chwarae da i blant. Mae'r wefan hefyd yn ddefnyddiol i grwpiau lleol a chynghorau tref a chymuned i ddarparu cymdogaethau chwarae-gyfeillgar yn eu hardaloedd. Gall yr adnoddau hefyd gael eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol yn eu gwaith â phlant a theuluoedd.

Mae'r wefan yn cynnig:

- Syniadau ymarferol am roi amser, lle a phethau i chwarae gyda nhw
- Awgrymiadau anhygoel, canllawiau 'sut i' a syniadau ar gyfer chwarae plant
- Gwybodaeth am gynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae.

Mewn ymateb i'r pandemig, fe wnaethom ddatblygu adran 'chwarae dan do' ar y wefan. Yn ystod blwyddyn 2020 - 2021, fe wnaethom barhau i ychwanegu blogiau amserol, awgrymiadau a syniadau syml ar gyfer chwarae yn ac o amgylch y cartref, yn unol â chanllawiau a rheoliadau'r llywodraeth.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom:

- Gydweithio gyda thimau a hybiau chwarae ledled Cymru i ddosbarthu 10,000 o gopïau o'r *Canllaw magu plant yn chwareus* a 5,000 o gopïau o'r *Canllaw chwarae adref* – ynghyd ag adnoddau eraill fel dalen-nodau a phosteri
- Dosbarthu 7,000 o gopïau o lyfr stori *Hwyl yn yr ardd* i blant ar draws Cymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae cynulleidfa sylweddol wedi ymweld â'r wefan – gan ddenu, rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021:

- 65,894 ymweliad
- 34,238 defnyddiwr.

Rhwng Ebrill a Mehefin 2020, bu cynnydd o 404% mewn traffig i'r wefan o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019, gyda'r mwyafrif o ddefnyddwyr yn ymweld â'r adran 'chwarae dan do' a grëwyd mewn ymateb i'r pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig.

Rydym wedi rhannu gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd ac ymgysylltu gyda'r gynulleidfa darged ar y platfformau cyfryngau cymdeithasol canlynol:

**Facebook**
4758 o ddilynwyr

**Instagram**
573 o ddilynwyr

Er mwyn cefnogi lleoliadau oedd yn gweithio wyneb-yn-wyneb gyda phlant yn ogystal â chynnig sesiynau chwareus ar-lein yn ystod y cyfnodau clo, fe gyhoeddom becyn dweud straeon i fynd gyda'n llyfr stori gwreiddiol, *Hwyl yn y dwnjwn*. Mae'r pecyn yn llawn syniadau ar sut y gellir defnyddio'r llyfr stori i drafod chwarae gyda'r plant.



## Llysgenhadon Chwarae Cymunedol

**Prosiect Chwarae Cymru ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg gan Chwarae Cymru. Bydd y gwersi a ddysgwn o'r prosiect yn ein helpu i'w ddatblygu mewn ardaloedd eraill yn y dyfodol.**

Bydd y prosiect yn cynnwys gweithio gyda phobl leol i sefydlu Grwpiau Gweithredu Chwarae i ddynodi ffyrdd i gynnal cyfleoedd chwarae rheolaidd. Mae hefyd yn cynorthwyo pobl ifanc 14-19 oed i ddod yn Llysgenhadon Chwarae Cymunedol gwirfoddol trwy dderbyn hyfforddiant, cymwysterau a chyfleoedd profiad gwaith mewn lleoliadau gwaith chwarae, gan eu galluogi i hwyluso cyfleoedd chwarae yn y gymdogaeth.

Er gwaetha'r oedi anochel a'r newid mewn dulliau trosglwyddo o ganlyniad i COVID-19, gwnaethpwyd cynnydd da ar y prosiect. Mae uchafbwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Proffilio cymunedau a dynodi pedair cymuned ble y gellid datblygu darpariaeth newydd gyda chymorth y prosiect – cychwynnwyd ar y gwaith ymgysylltu ar-lein gyda grwpiau ac unigolion.
- Gweithredu rhaglen o ddysgu ar-lein. Trosglwyddwyd hyfforddiant lefel 1 a gwblhawyd gan 28 o ddysgwyr mewn partneriaeth gyda Choleg Caerdydd a'r Fro.
- Trosglwyddwyd cwrs lefel 1 ychwanegol ar-lein i bum person ifanc oedd wedi datgan diddordeb yn y prosiect. Cafodd y bobl ifanc eu recriwtio o bob cwr o'r ddau awdurdod lleol.
- Gweithredwyd rhaglen o ddysgu cyfunol gyda phedwar person ifanc o'r prosiect Cynnwys Disgyblion yng Nghaerdydd a phum person ifanc o brosiect ieuenctid Y Sblot.
- Cynhaliwyd gweithdai ymsefydlu ar gyfer sesiynau chwarae wyneb-yn-wyneb dros y Pasg ar gyfer darpariaeth gŵyl banc y gwanwyn.
- Mentora ein Llysgenhadon Chwarae presennol trwy sesiynau a chyfarfodydd ar-lein a'u cynorthwyo i gynnal peilot o offer cynnal archwiliadau cymunedol.
- Darparu cyfarfodydd ar-lein ar gyfer tair cymuned sy'n gweithio tuag at sefydlu Grwpiau Gweithredu Chwarae lleol.
- Symudodd chwe dysgwr ymlaen i gymhwyster lefel 2.

Er mwyn gweithredu'r prosiect, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda:

- Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales
- Gwasanaethau Chwarae Plant Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Tîm Lleol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Re-create
- Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae Bro Morgannwg.

*Ariennir y prosiect hwn drwy'r Gronfa Iach ac Egnïol (HAF)*

Play Ambassador Project – Llysgenhadon Chwarae Prosiect

Cronfa Iach ac Egnïol
Healthy & Active Fund

# Aelodaeth

Mae Chwarae Cymru yn fudiad i aelodau.

Gofynnir i bob aelod sy'n ymuno, i ymrwymo i'r Egwyddorion Gwaith Chwarae a *Polisi Chwarae* Llywodraeth Cymru.

Yn 2020 - 2021* roedd gennym 302 o aelodau, yn cynnwys:

- Awdurdodau lleol
- Cynghorau tref a chymuned
- Prifysgolion a cholegau
- Cymdeithasau chwarae lleol a rhanbarthol
- Clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast, cynlluniau chwarae gwyliau'r ysgol a meithrinfeydd
- Cwmnïau masnachol
- Mudiadau cenedlaethol yng Nghymru ac yn rhyngwladol
- Unigolion fel gweithwyr chwarae, hyfforddwyr gwaith chwarae, athrawon a darlithwyr.

Mae **aelodaeth gyswllt** yn agored i bob mudiad ac unigolyn sy'n byw yng Nghymru.

Mae **aelodaeth gyswllt ryngwladol** yn agored i unrhyw fudiad neu unigolyn sy'n byw neu'n gweithio'r tu allan i Gymru hoffai gefnogi gwaith Chwarae Cymru. Ceir cyfyngiadau ar y buddiannau aelodaeth oherwydd ein bod fel elusen wedi ein cofrestru i weithio er budd trigolion Cymru.

Yn 2020 - 2021 fe wnaeth ein haelodau elwa trwy dderbyn:

- Hysbysiadau ynghylch ymgynghoriadau allweddol a thrwy gyfrannu eu mewnbwn hwy i'n hymatebion
- Gwybodaeth reolaidd am ddatblygiadau ac ymchwil newydd
- Pris gostyngedig i gyfranogwyr yn ein digwyddiadau
- Cludiant am ddim wrth brynu ein cyhoeddiadau.




| | |
|---|---|
| **Unigolyn** | **£10** |
| **Sefydliadau**<br>(un, neu lai, o aelodau llawn amser o staff) | **£25** |
| **Rhyngwladol**<br>(y tu allan i Gymru) | **£25** |
| **Sefydliadau**<br>(mwy nag un aelod llawn amser o staff) | **£50** |
| **Masnachol neu breifat** | **£75** |
| **Awdurdod lleol** | **£100** |

* Cynigiwyd aelodaeth am ddim ar gyfer 2021 i bob unigolyn a sefydliad yng Nghymru ac yn rhyngwladol ym mis Mawrth 2021.

# Partneriaid

Yn ogystal â chefnogi trosglwyddo rhaglenni Llywodraeth Cymru, yn ystod 2020 - 2021 rydym wedi gweithio mewn partneriaeth a chydweithrediad â'r mudiadau, grwpiau ac unigolion canlynol ar brosiectau penodol:

- Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales
- Agored Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro / Tîm Lleol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Canolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth (NCPHWR)
- Charlotte Derry
- Children's Play Policy Forum
- City & Guilds
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- Comisiwn Dylunio Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Cowshed Communication
- Cronfa Iach ac Egnïol
- Cymwysterau Cymru
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Caerdydd
- Dr David Dallimore
- Dr Wendy Russell
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Grŵp Arbenigol Plant Egnïol Iach Cymru
- Grŵp Cynghori Safonau Cymwysterau (QSAG)
- Grŵp Monitro CCUHP Cymru
- HAPPEN – Health & Attainment of Pupils in a Primary Education Network
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- International Play Association (IPA)
- Learning through Landscapes
- Ludicology
- NCFE Cache
- PETC Cymru
- Petra Publishing (prosiect Caerphilly Parent Network)
- Play England
- Play Safety Forum
- Play Scotland
- PlayBoard Northern Ireland
- Playday | Diwrnod Chwarae
- Playful Futures
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Manceinion
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Pwyllgor Charity Comms Wales
- Re-create
- Rhwydwaith Gweithlu Blynyddoedd Cynnar
- Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS)
- The Windfall Centre
- Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

# Cyflawniadau: 1998 - 2020

**Ers 1998 mae Chwarae Cymru wedi eiriol ac ymgyrchu'n llwyddiannus dros chwarae, ac wedi annog a chefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau ymrwymiadau cwbl arloesol ar ran plant.**

## Rhagor o gyllid ar gyfer chwarae plant

- Yn 2000, yn dilyn lobïo gan Chwarae Cymru, dosbarthodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grant Chwarae o £1m i greu darpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio. Er mai'r bwriad yn wreiddiol oedd i'r ariannu yma fod ar gael am flwyddyn yn unig, parhaodd y grant fel elfen o gyllid grant gwahanol yn y blynyddoedd ers hynny.
- Yn 2006, derbyniodd Chwarae Cymru gytundeb tair blynedd ar gyfer helpu i drosglwyddo rhaglen Chwarae Plant £13m Cronfa'r Loteri FAWR, i gefnogi cynyddu cynhwysedd a phrosiectau chwarae strategol yng Nghymru.
- Yn ddiweddarach, cefnogodd Chwarae Cymru awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o ariannu oedd ar gael trwy'r Grant Cynyddu Cyfleoedd i Chwarae yn 2014, 2015, 2017, 2018, 2019, 2020 a 2021.
- Yn 2019, yn dilyn lobïo gan Chwarae Cymru ac eraill, sefydlodd Llywodraeth Cymru gynllun Llwgu yn ystod y gwyliau: peilot gwaith chwarae i brofi dichonoldeb mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau trwy leoliadau chwarae a chymunedol. Gan ddefnyddio dysg a gasglwyd o'r peilot, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1m i'r cynllun hwn i'w ddosbarthu i awdurdodau lleol yn flynyddol.
- Yn 2020, fel rhan o becyn ariannu Ail-greu ar ôl Covid-19: yr heriau a'r blaenoriaethau, dyrannodd Llywodraeth Cymru £500,000 o gyllid refeniw ar gyfer Prosiect Gwaith Chwarae a £3m o gyllid cyfalaf i awdurdodau lleol er mwyn gwella cyfleoedd chwarae awyr agored ar gyfer plant.

## Cydnabyddiaeth genedlaethol gynyddol i chwarae

- Cynorthwyodd Chwarae Cymru Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu *Polisi Chwarae* 2002 – y cyntaf yn y byd. Yn ogystal, cynorthwyodd Chwarae Cymru gyda'r gwaith o ddatblygu *Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae* Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006).
- Yn 2012, deddfodd Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae plant. Mae cyfleoedd chwarae wedi eu cynnwys ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae hwn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i '*asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol*'. Trwy ymateb i ymgynghoriadau, cynorthwyodd ein haelodau i sicrhau bod pwysigrwydd chwarae â man amlwg yn y ddeddfwriaeth Gymreig arloesol yma. Elfen arloesol arall – mae'n bosibl mai dyma'r datblygiad pwysicaf i ddigwydd ar gyfer chwarae plant yng Nghymru.
- Yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, cyfarwyddyd statudol ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Mae Chwarae Cymru wedi parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor i bob rhanddeiliad o ran gweithredu'r cyfarwyddyd yma.
- Yn 2017 gweithiodd Chwarae Cymru'n agos gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru ar raglen *Pob Plentyn Cymru* sy'n cydnabod pwysigrwydd allweddol chwarae i iechyd corfforol ac emosiynol plant.
- Yn 2019, cyflwynodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Nod yr adolygiad yw asesu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gyflawni o ran eu polisi chwarae ac i'w hysbysu ar sut i symud yr agenda chwarae ymlaen dros y blynyddoedd nesaf.

## Gweithlu dynamig

- Datblygodd Chwarae Cymru *Yr Hawl Cyntaf... fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* ac *Yr Hawl Cyntaf – Prosesau Dymunol*. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn anelu i gefnogi pobl sy'n gweithio gyda phlant i ddadansoddi amgylcheddau chwarae ac mae'n cynnig fframwaith ar gyfer asesu

ansawdd yr hyn y darperir ar ei gyfer, a'i brofi gan blant.

- Arweiniodd Chwarae Cymru adolygiad y DU o'r Gwerthoedd a Rhagdybiaethau Gwaith Chwarae. Yn dilyn ymgynghoriad, mabwysiadodd y sector yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac fe'u cymeradwywyd gan SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gwaith Chwarae, yn 2005. Bellach, mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n ffurfio sail i'r safonau galwedigaethol ar gyfer gwaith chwarae yn y DU.
- Er mwyn datblygu arfer gwaith chwarae cyfoes, gweithiodd Chwarae Cymru gyda'r Scottish Qualifications Authority (SQA) i gynnig cymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$) ar lefel 2 a 3. Er mwyn cefnogi'r hyfforddiant arloesol yma, fe wnaethom gynhyrchu deunyddiau dysgu ysbrydoledig.
- Rhwng Chwarae Cymru, Llywodraeth Cymru ac ariannu Ewropeaidd, rydym wedi buddsoddi dros £1.5m yn y gwaith o ddatblygu, peilota a throsglwyddo Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$).
- Mae Chwarae Cymru wedi parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae'n ateb anghenion y gweithlu. Mae'r gwaith yma wedi cynnwys datblygu dau gymhwyster sydd wedi eu hanelu at y bobl hynny sy'n gweithio mewn cynlluniau chwarae dros y gwyliau – Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) a Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau (MAHPS) (Agored Cymru) – yn ogystal ag adolygu, diweddaru a chyflwyno Tystysgrif Lefel 2 a Diploma Lefel 3 newydd $P^3$, gan weithio gydag Agored Cymru ac Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales.
- Chwarae Cymru sy'n darparu'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Wales) sy'n cymeradwyo cymwysterau i'w cynnwys ar y *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru*. Defnyddir y rhestr hon gan gyflogwyr ac Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau bod gan leoliadau a reoleiddir staff sy'n meddu ar gymwysterau addas.

## Gwell ymwybyddiaeth o chwarae yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

- Trwy'r wefan a thrwy gyhoeddi e-fwletinau rheolaidd, cylchgronau, taflenni gwybodaeth, pecynnau cymorth, llyfrau a phosteri, mae Chwarae Cymru'n hyrwyddo chwarae plant yn eang iawn. Caiff ein gwefan ei hystyried yn rhyngwladol fel un o'r rhai mwyaf effeithlon wrth gyflwyno gwybodaeth amserol am chwarae plant.
- Yn 2018, lansiodd Chwarae Cymru ymgyrch a gwefan *Plentyndod Chwareus* er mwyn helpu rhieni, gofalwyr a grwpiau cymunedol i roi digon o gyfleoedd da i blant chwarae – gartref ac allan yn y gymuned.
- Mae Chwarae Cymru'n darparu hyfforddiant, seminarau a chynadleddau ar gyfer pawb sy'n darparu a chefnogi chwarae plant – gan gynnwys Cynhadledd Fyd-eang 2011 yr International Play Association (IPA).
- Yn 2011, derbyniodd Prif Weinidog Cymru ar y pryd, Carwyn Jones AC, Wobr Hawl i Chwarae'r IPA ar ran pob un yng Nghymru sy'n ymdrechu i wneud Cymru'n wlad chwarae-gyfeillgar. Cymru yw'r wlad gyntaf i dderbyn y wobr arobryn yma.
- Cefnogodd Chwarae Cymru waith yr IPA gyda Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i ddrafftio a mabwysiadu Sylw Cyffredinol sy'n egluro i lywodraethau ar draws y byd ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31 o'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Gweithiodd Chwarae Cymru gyda phlant Cymru i ddatblygu adnoddau i hyrwyddo'r hawliau a amlinellir yn Erthygl 31 o GCUHP ar ran yr IPA i gyd-fynd â lansiad y Sylw Cyffredinol.
- Ysgrifennodd dau aelod o dîm Chwarae Cymru becyn cymorth yr IPA, *Access to Play for Children in Situations of Crisis*.
- Comisiynodd Chware Cymru dri adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau prosiectau ymchwil graddfa fechan, yr oedd y cyntaf ohonynt yn archwilio sut ymatebodd awdurdodau lleol i gyflwyniad y ddyletswydd i asesu cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant a'r ail yn ymchwiliad dilynol oedd yn edrych ymlaen at gychwyn ail ran y Ddyletswydd, i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant. Mae'r trydydd yn archwilio canfyddiadau pobl o'r hyn sydd wedi newid ar gyfer cyfleoedd chwarae plant ers i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gychwyn yn 2012.


**Mae hyn i gyd wedi cyfrannu at weld mwy o blant yn cael amser, rhyddid a chaniatâd i chwarae. Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod Cymru'n wlad ble y caiff chwarae ei barchu am ei bwysigrwydd allweddol i blentyndod – ychwanegwch eich llais er mwyn ein helpu i wneud mwy.**

# Adolygiad ariannol – crynodeb

**Adroddiadau incwm a gwariant Chwarae Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen Mawrth 2021.**


## Cyfanswm incwm £1,157,523

| | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £1,060,000 |
| Cronfa Iach ac Egnïol | £73,522 |
| Incwm arall | £23,263 |
| Aelodaeth | £738 |



## Cyfanswm gwariant £967,998

| | |
|---|---|
| Polisi chwarae, cymorth ac eiriolaeth | £328,041 |
| Datblygu'r gweithlu | £178,501 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth | £422,134 |
| Rheolaeth | £39,322 |



**Mae ein hadroddiad blynyddol llawn a'n datganiadau ariannol, yn cynnwys adroddiad yr archwilydd annibynnol, i'w cael ar wefan y Comisiwn Elusennau.**



# Cynlluniau ar gyfer y dyfodol: 2021 - 2022

**Bydd Chwarae Cymru'n parhau i weithio i hybu chwarae plant, i weithredu fel eiriolwr dros blant a'u hanghenion chwarae.**

**Tan fis Mawrth 2022, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru i ddarparu ystod o gefnogaeth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.**

### Yn benodol, rydym yn rhagweld y byddwn yn cyflawni'r canlynol:

- Parhau i gefnogi darparwyr cyfleoedd chwarae i ymateb i'r pandemig mewn modd cyfeillgar at chwarae.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni a chwblhau'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.
- Parhau i drosglwyddo gwasanaeth gwybodaeth wedi ei anelu at ein cynulleidfa eang trwy ddarparu cyhoeddiadau â ffocws penodol, llythyru uniongyrchol a gwefannau wedi eu diweddaru yn ogystal ag ymgysylltu trwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cyfrannu at a hysbysu eiriolaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol trwy waith prosiect ac aelodaeth o bwyllgorau a grwpiau.
- Cefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i ymgysylltu gydag ag ymateb i bolisi cenedlaethol trwy ddigwyddiadau, hwyluso rhwydweithiau a chyngor.
- Gweithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth (NCPHWR) i ddynodi'r hyn y mae plant yn ei ddweud am fynediad i chwarae a'r hyn yr hoffen nhw o ran chwarae.
- Gweithredu a monitro *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru*, ein cynllun datblygu'r gweithlu.
- Gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i gynnal ymchwil i'r gweithlu.
- Gweithio gydag Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i sicrhau bod cyflwyniad parhaus cymwysterau $P^3$ Agored Cymru yn llwyddiannus ac yn parhau i ymateb i anghenion y gweithlu.
- Cwblhau a chynnal peilot o Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwaith Chwarae, *Chwarae o Safon*, ar gyfer gwaith chwarae.
- Gweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru i gytuno ar a rhannu negeseuon ynghylch chwarae plant.
- Cynnal adolygiad o amser chwarae mewn ysgolion ledled Cymru.
- Gweithredu a throsglwyddo'r Prosiect Llysgenhadon Chwarae Cymunedol.
- Datblygu a lansio gwefan newydd Chwarae Cymru.
- Trosglwyddo ystod eang o ymgyrchoedd *Plentyndod Chwareus* i gefnogi rhieni a gofalwyr i ddarparu cyfleoedd digonol i blant chwarae adref ac yn eu cymunedau.
- Cynhyrchu a lansio ffilm newydd i ddathlu chwarae plant yng Nghymru ac i hybu pwysigrwydd chwarae ym mywyd pob plentyn.
- Adolygu, diweddaru a gweithredu ein Strategaeth Codi Arian er mwyn galluogi trosglwyddo prosiectau ychwanegol.

**Er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaethau hyn eu datblygu a'u trosglwyddo mor effeithlon â phosibl, byddwn yn adolygu a datblygu cynllun gweithredol Chwarae Cymru.**

# Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru – llywodraethu

Mae gennym Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n goruchwylio rhedeg Chwarae Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein amcanion mewn modd effeithiol ac effeithlon yn unol â'r gyfraith. Ceir hefyd nifer o Sylwedyddion i'r Bwrdd sy'n cefnogi'r Ymddiriedolwyr ond sydd yn ddibleidlais. Caiff ein Ymddiriedolwyr eu hethol gan ein haelodau, neu eu cyfethol i gynrychioli maes arbenigedd penodol.

(ym mis Mawrth 2021)

## Bwrdd Ymddiriedolwyr

**Dr Rhian Barrance**
Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), Prifysgol Caerdydd

**Dr Anne Crowley**

**Malcolm King OBE**

**Owain Lloyd**
S4C

**Yr Athro Ronan Lyons**
Prifysgol Abertawe

**Dr Mike Shooter CBE (Cadeirydd)**
Seiciatrydd Ymgynghorol (wedi ymddeol)

**Keith Towler**

**Yr Athro Elspeth Webb**

## Mudiadau sy'n Sylwedyddion

**Catherine Davies**
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Owen Evans**
Plant yng Nghymru

# Tîm Chwarae Cymru

(ym mis Mawrth 2021)

**Mike Greenaway**
Cyfarwyddwr

**Paula Harris**
Swyddog Prosiect

**Lowri Jenkins**
Cynorthwy-ydd Cyfathrebiadau Digidol

**Martin King-Sheard**
Swyddog Datblygu'r Gweithlu

**Marianne Mannello**
Cyfarwyddwraig Gynorthwyol (Polisi, Cymorth ac Eiriolaeth)

**Kathy Muse**
Rheolwraig Swyddfa

**Ruth O'Donoghue**
Swyddog Cyllid

**Angharad Wyn Jones**
Rheolwraig Cyfathrebiadau

**www.chwaraecymru.org.uk**

Elusen cofrestredig, rhif 1068926